O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 149 (Cy. 36)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2021* |
| *Yn dod i rym* | *22 Chwefror 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A477, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021 a daw i rym ar 22 Chwefror 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 22 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Cymhwyso**

**6.**—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Chwefror 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i Face hyd at bwynt 394 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3045 i Amroth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 441 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3045 i Amroth hyd at bwynt 268 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r B4586 i Broadmoor, gan gynnwys system gylchu Cylchfan Cilgeti.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 288 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r B4586 i Broadmoor hyd at bwynt 290 o fetrau i'r dwyrain o

ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Stephens Green Lane, Milton, gan gynnwys systemau cylchu Cylchfannau Sageston a Chaeriw.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 360 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Stephens Green Lane, Milton, hyd at bwynt 726 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Eastern Avenue, Doc Penfro.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr dde-orllewinol Cylchfan Sanclêr hyd at bwynt 93 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i Face, gan gynnwys system gylchu Cylchfan Sanclêr.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 394 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3045 i Amroth hyd at bwynt 441 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 268 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4586 i Broadmoor hyd at bwynt 288 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 290 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Stephens Green Lane, Milton hyd at bwynt 360 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 726 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Eastern Avenue, Doc Penfro, hyd at ei chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan honno.